Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 4 Hydref 2019 |
| **Pwnc / Subject:** | Adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg ar sefyllfa'r Gymraeg rhwng 2016–20 |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Y cwestiynau ymgynghori yw:

- eich barn ar yr adroddiad 5-mlynedd diwethaf

Cred Estyn fod yr adroddiad yn un cynhwysfawr a thrylwyr. Fel sefydliad sy'n cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg, medrwn ei ddefnyddio a'r wybodaeth ynddo i fireinio ein dealltwriaeth o faterion ieithyddol ac o ganlyniad gwella ein defnydd o'r Gymraeg yn gorfforaethol, yn fewnol ac yn allanol.

Hefyd, o ran gwaith Estyn wrth godi safonau a gwella addysg a hyfforddiant yng Nghymru, teimlwn fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth sydd yn ddefnyddiol iawn yn y broses honno.

Er enghraifft, mae adran *6.3 Y Gymraeg mewn addysg* yn berthnasol i waith Estyn. Nodwn fod '*siaradwyr Cymraeg ifanc yn fwy tebygol o fod wedi dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol nag unrhyw le arall' (Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15)* ac mae 79% o siaradwyr Cymraeg 3 i 15 mlwydd oed wedi dysgu'r Gymraeg yn yr ysgol yn bennaf. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd ein gwaith o arolygu safonau dysgu ac addysgu'r Gymraeg yn ein hysgolion.

O ran addysgeg ac effeithiolrwydd dulliau caffael iaith, nodwn fod y dystiolaeth yn yr adroddiad yn cefnogi pwysigrwydd gofal yn y blynyddoedd cynnar cyn statudol. Mae cynifer ag 11 y cant o holl siaradwyr y Gymraeg wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol feithrin, gyda chyfradd rhugldеr o 50 y cant ymysg y bobl hynny – cyfradd sy'n sylweddol uwch na'r lefelau rhugldеr ymhlith y rheini sydd wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol gynradd, yr ysgol uwchradd neu mewn lleoliad arall heblaw'r cartref.

Mae adran 5.8 yn cyfeirio'n fuddiol at ddata ynghylch lefelau hyfedredd sgiliau iaith unigolion. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod cyswllt clir rhwng pa mor rhugl yw unigolion a'u gallu i ysgrifennu yn Gymraeg. Hynny yw, mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn llawer mwy tebygol na siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl o feddu ar sgiliau ysgrifennu Cymraeg da, ac mae tua naw o bob deg siaradwr Cymraeg rhugl yn medru ysgrifennu Cymraeg yn dda. Ychydig dan chwarter y siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl a ddywedodd eu bod yn gallu ysgrifennu yn Gymraeg yn dda. Mae hyn yn arwain yn ddefnyddiol at ystyriaethau yn ymwneud ag addysgeg a'r pwyslais priodol sydd ei angen ar ddatblygu a/neu flaenoriaethu llafaredd fel sail i'r sgiliau eraill.

Teimlwn fod adran 7.3 *Defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn yr ysgol* yn tynnu sylw'n werthfawr at y mater pwysig hwn. Arolygwn y fath ddefnydd anffurfiol yn ystod arolygiadau ar draws y sectorau rydym yn eu harolygu. Yn ddiweddar, rydym wedi cryfhau ein harweiniad arolygu yn y sector ôl-16 er mwyn sicrhau bod arweinwyr yn cynllunio'n effeithiol i gynyddu cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal â chynnig cyfleoedd ffurfiol i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hastudiaethau.

Gwelir yn adran 5.2 *Prif ganfyddiadau* 'Er 1981, bu cynnydd parhaus yng nghanran y plant a'r bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg ond ymddengys bod cryn dipyn ohonynt yn colli eu sgiliau Cymraeg wedi iddynt adael yr ysgol.'

Mae adran 6.*6 Addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith* yn cydnabod yn werthfawr bod y cyfnod 16-19 oed yn hollbwysig o ran dilyniant ieithyddol. Nodir bod diffyg dilyniant ieithyddol wrth i bobl ifanc adael yr ysgol i ddysgu mewn colegau addysg bellach ac yn y gweithle. Mae adroddiad Estyn 'Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach, Mehefin 2017' yn edrych ar hyn yn fanwl. Mae'n datgan yn glir 'nid oes digon o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn parhau â'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn colegau addysg bellach'. (Gweler isod am ddolen i'r adroddiad hwnnw).

- beth hoffech chi ei weld yn yr adroddiad nesaf

  At ei gilydd, credwn fod cynnwys yr adroddiad yn addas ac yn ddefnyddiol o ran diwallu nifer o ddibenion gwahanol. Yn yr adroddiad nesaf, byddai'n fuddiol pe bai modd croesgyfeirio targedau Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (Rhaglen waith 2017-21) â datblygiadau mewn sectorau gwahanol er mwyn asesu traweffaith y datblygiadau hynny. Er enghraifft, yn adran 6.8 cyfeirir at sector Cymraeg i Oedolion a'r ffaith bod y data yn anghyflawn. Erbyn yr adroddiad nesaf bydd data cyflawn (2017-18) ar gael am y tro cyntaf yn y sector, gan gynnwys data cyrhaeddiad. Byddai modd defnyddio'r data i wirio os yw'r sector yn cyflawni'r targed o 'cynyddu nifer yr oedolion sy'n dod yn siaradwyr Cymraeg' (T.24 Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr) a'r rhagdybiaeth o 1,000 o siaradwyr ychwanegol bob blwyddyn (trwy sector CiO) ar ôl 2011.

- unrhyw waith ymchwil neu adroddiadau perthnasol rydych chi'n gyfrifol amdanynt yr hoffech i ni eu hystyried

  Mae Estyn yn cyhoeddi nifer o adroddiadau thematig bob blwyddyn, gyda nifer ohonynt yn berthnasol i'r iaith Gymraeg o ran ystyriaethau addysgol a chynllunio ieithyddol. Hoffem ofyn i chi ystyried yr adroddiadau thematig canlynol;

  1. Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol, Medi 2016

     https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg-awdurdodau-lleol?_ga=2.117487564.471453252.1569500438-580289022.1562681650

  2. Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach, Mehefin 2017

     https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/addysgu-dysgu-cyfrwng-cymraeg-dwyieithog-mewn-addysg-bellach?_ga=2.122091598.471453252.1569500438-580289022.1562681650

  3. Adolygiad o waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Mehefin 2017

     https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/adolygiad-o-waith-y- ganolfan-dysgu-cymraeg-genedlaethol?_ga=2.11476977.471453252.1569500438-580289022.1562681650

  4. Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, May 2018

     https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cymraeg-yng-nghyfnod-allweddol-2-chyfnod-allweddol-3-mewn-ysgolion-cyfrwng?_ga=2.13103346.471453252.1569500438-580289022.1562681650

5. Cymwysterau newydd, Gorffennaf 2018

   https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cymwysterau-newydd?_ga=2.46011489.471453252.1569500438-580289022.1562681650

- beth fyddai’n gwneud yr adroddiad yn ddefnyddiol neu’n berthnasol i chi a’ch sefydliad

Rydym wedi ateb y cwestiwn hwn eisoes i raddau yn ein hymatebion uchod. O ran gweithredu’r Safonau, credwn fod Swyddfa’r Comisiynydd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i sefydliadau ddysgu mwy am arfer dda a datblygiadau diweddaraf yn y maes. Gwerthfawrogwn y ffaith bod modd i ni gwrdd â swyddogion Swyddfa’r Comisiynydd er mwyn trafod materion perthnasol. Mae hyn yn ein galluogi i fonitro a gwella ein perfformiad fel sefydliad sydd yn ystyried y Gymraeg yn rhan annatod o’i waith a’i weledigaeth.